TORFAEN COUNTY BOROUGH | BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Datganiad Gwasanaeth Seibiannau Byr Torfaen 2026**

**Cyflwyniad a Chefndir**

Cyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLl), roedd gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ysgrifennu 'Datganiad Seibiannau Byr' i helpu rhieni a gofalwyr sydd â phlant a phobl ifanc anabl i nodi:

- amrywiaeth y gwasanaethau mae'r awdurdod lleol yn eu darparu
- unrhyw feini prawf cymhwystra
- sut mae modd eu cael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr angen parhaus am wasanaeth seibiannau byr yn cael ei gydnabod yn y rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n cyd-fynd â'r DGCLl. Mae nifer o wasanaethau ataliol wrth galon y Ddeddf.

Yn aml, bydd seibiannau byr yn cael eu darparu'n rhan o gynllun gofal a chymorth plentyn anabl trwy asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn. Bydd hyn yn digwydd yn arbennig pan fo'r seibiant wedi ei fwriadu er mwyn i'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau diogel ac ysgogol y tu allan i gartref y teulu.

Mae DGCLl wedi cyflwyno newidiadau yn y sector gwasanaethau cymdeithasol fel bod;

- Gan bobl rheolaeth dros ba gymorth y maen nhw ei hangen, gan wneud penderfyniadau am eu gofal a chymorth fel partner cyfartal
- Mynediad hawdd at wybodaeth a chyngor ar gael i bawb
- Hawl gyfartal gan ofalwyr i asesiad ar gyfer cymorth i'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt
- Asesiad newydd cymesur yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach
- Dull ataliol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth yn cael ei arfer.

O dan DGCLl mae'n ofynnol nawr i Awdurdodau Lleol gadw rhestr o wasanaethau ataliol lleol. Mae CBS Torfaen wedi diwygio'r Datganiad Seibiannau Byr gwreiddiol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**Beth yw Seibiant Byr?**

Mae Seibiannau Byr yn rhoi cyfle i rieni a gofalwyr sydd â phlant a phobl ifanc ag anableddau, dreulio amser i ffwrdd o'u rhieni, yn ymlacio ac yn cael hwyl gyda'u ffrindiau. Maen nhw'n rhoi 'seibiant' i deuluoedd sydd â chyfrifoldebau gofal; maen nhw'n rhoi cyfle i rieni ddadflino, gorffwys, treulio amser gyda'u plant eraill a rhoi cyfle i frodyr a chwiorydd

hefyd fwynhau amser gyda'r teulu. Ymhlith enghreifftiau o seibiannau byr mae cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau, diwrnodau hwyl i'r teulu a gofalu am y cartref.

Gall Seibiannau Byr gynnwys:

- Gofal dydd yn y cartref neu'n rhywle arall
- Gofal dros nos yn y cartref neu'n rhywle arall
- Gweithgareddau hamdden y tu allan i'r cartref
- Gwasanaethau i gynorthwyo gofalwyr gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r haf

Mae seibiannau byr o wahanol fathau ar gael, a gallant barhau am wahanol gyfnodau, o ychydig o oriau i rai diwrnodau. Bydd hyd y seibiant a'r math, yn dibynnu ar eich plentyn, person ifanc a'r teulu. Ni fydd angen yr un lefel o gymorth a seibiant ar bob plentyn a theulu; bydd angen mwy ar rai oherwydd natur a difrifoldeb anabledd y plentyn neu amgylchiadau teuluol. Dyma pam efallai y bydd rhaid i ni asesu eich plentyn a'ch teulu i sicrhau ein bod yn rhoi'r cymorth a'r seibiannau cywir ar yr adeg gywir.

**Yr Egwyddorion sy'n sail i Seibiannau Byr**

- Ni ddylai seibiannau byr fod yno ar adegau o argyfwng yn unig; maen nhw yno i fod yn ymyrraeth gynnar.
- Ni ddylai mynediad at seibiannau byr gael eu barnu ar sail nam yn unig
- Dylai seibiannau byr fod yn ddibynadwy ac yn rheolaidd i fodloni anghenion teuluoedd yn y ffordd orau
- Dylai rhieni gymryd rhan yng nghynlluniau gwasanaethau seibiannau byr lleol
- Gall seibiannau byr adeiladu ar wasanaethau cyffredinol a chael eu cynnig gan ddarparwyr gwasanaeth cyffredinol
- Gall seibiannau byr fod yn wasanaeth allweddol i hyrwyddo lefelau uwch o hyder a gallu, i bobl ifanc sy'n nesáu at fod yn oedolion.

**Pa seibiannau byr sydd ar gael?**

Efallai bydd angen asesiad ar gyfer rhai seibiannau ac nid ar gyfer eraill. Mae seibiannau byr yn syrthio i 3 grŵp yn fras:

1. **Cyfleoedd sydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yn lleol**

Dylai pob plentyn a pherson ifanc allu cael yr un cyfleoedd hamdden a gweithgareddau sydd ar gael i bawb. Cyfleoedd yw'r rhain y mae pawb yn gallu cymryd rhan ynddyn nhw fel llyfrgelloedd, canolfannau chwaraeon, grwpiau ieuenctid a meysydd chwarae - efallai bydd tâl i gymryd rhan yn rhai o'r cyfleoedd hyn. Lle bo hynny'n bosibl, dyma'r cyfleoedd y dylid eu defnyddio i ddechrau. Mae plant a phobl ifanc anabl, a'u teuluoedd yn rhan o'u cymunedau lleol ac mae'n bwysig eu bod yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cyfleoedd yn lleol. Efallai bydd angen cymorth ychwanegol ar rai pobl er mwyn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau yn y gymuned. Rydym wedi ymrwymo at sicrhau fod gan grwpiau a gwasanaethau hollgynhwysol y cymorth y mae ei angen arnyn nhw i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth am y cyfleoedd hyn

ar wefan Cyngor Torfaen, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a mannau sy’n rhannu gwybodaeth fel ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.

## 2. Cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd angen peth cymorth ychwanegol

Rydym yn cydnabod efallai bydd gan deuluoedd anghenion ychwanegol os ydyn nhw'n magu plentyn anabl a bod angen cymorth ychwanegol, efallai, ar y plant a phobl ifanc, naill ai yn y tymor hir neu'r tymor byr, er mwyn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae yna wasanaethau ar gael sy'n ceisio cynnig cymorth i atal anawsterau rhag datblygu ac annog plant a phobl ifanc i roi cynnig ar rywbeth newydd.

Mae gwasanaethau cymorth seibiannau byr yn benodol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd a gellir eu darparu ar gyfer grwpiau gwahanol o ran oedran neu nam. Nid yw mynediad yn ddibynnol o reidrwydd ar asesiad ffurfiol o angen ond efallai bydd gan bob gwasanaeth eu meini prawf eu hunain.

Rhoddir enghreifftiau o gyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd angen peth cymorth ychwanegol isod. Codir tâl ar gyfer rhai o'r cyfleoedd.

### Torfaen Play – Chwarae Torfaen

Sesiynau Chwarae a Seibiant /Cyfleoedd Chwarae Torfaen

Mae model Chwarae Cynhwysol Gwasanaethau Chwarae Torfaen wedi cael ei gydnabod fel model blaenllaw yn y sector. Mae'r darpariaethau yn agored i bob plentyn, rhwng **5 a 18 oed**, waeth beth yw ei allu a’i gefndir cymdeithasol. Mae gwirfoddolwyr chwarae a gweithwyr gofal chwarae yn cael eu hyfforddi i ddarparu cymorth ar gyfer anghenion unigol. Mae Chwarae Torfaen yn gweithio mewn partneriaeth agos â sawl sefydliad gan gynnwys Gofal Cymdeithasol, Addysg, Iechyd a Theuluoedd yn Gyntaf er mwyn sicrhau bod cymorth addas ar gael ac ar waith. Mae model cynhwysol Chwarae Torfaen yn helpu i leihau rhwystrau cymdeithasol ac mae'n hanfodol i rieni/gofalwyr yn ogystal â phlant a phobl ifanc.

Mae sesiynau chwarae yn mynd rhagddynt mewn nifer o leoliadau ar draws y fwrdeistref. Darperir amrywiaeth o weithgareddau i blant a phobl ifanc a gallant gynnwys profiadau synhwyraidd, cerddoriaeth, celf a chrefft, chwaraeon a gemau. Mae sesiynau Chwarae a Seibiant yn cael eu cynnal ar benwythnosau, yn ystod gwyliau hanner tymor, y Pasg a gwyliau’r haf. Hefyd, mae yna sesiynau sy’n cael eu cynnal yn ystod gwyliau’r Nadolig. Gellir atgyfeirio at y cynlluniau chwarae trwy lenwi ffurflen ‘Amdanaf i’ sydd ar gael gan y Tîm Gwasanaeth Chwarae neu’r Tîm Plant Anabl yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae’r ffurflen hon yn nodi anghenion unigol y plentyn. Pan gaiff y ffurflen hon ei llenwi, gellir asesu'r lefel o gymorth y mae ei angen i fynychu'r ddarpariaeth chwarae, a gellir nodi unrhyw hyfforddiant ychwanegol y gall fod ei angen ar y gweithiwr / gwirfoddolwr. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen Cyfleoedd Chwarae yn ystod Gwyliau Ysgol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Darpariaeth Arbenigol**

Mae'r gwasanaeth chwarae'n rhoi cymorth 1-1 i blant ag anableddau ac anghenion ymddygiadol fynychu cyfleoedd chwarae. Rhoddir cymorth i blant 5+ oed fynychu cyfleoedd yn ystod gwyliau ac ar benwythnosau. I gofrestru eich plentyn ar gyfer cymorth chwarae 1-1 neu i gael ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod:
Darpariaethau Arbenigol Chwarae Torfaen – Ffurflen Gofrestru

**Sesiynau Chwarae a Seibiant ar Benwythnosau**

Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau wythnosol ar ddydd Sadwrn a dydd Sul i blant/pobl ifanc 5-18 oed. Mae'r sesiynau'n cael eu cynnal yn Eglwys Victory, Canolfan Gymunedol Bryn Eithin, The Cockerel, Neuadd Gymunedol Glenside a Chaban Abersychan. Dim ond trwy atgyfeiriad yn unig y gellir cyrchu pob sesiwn a enwir. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â torfaenplay@torfaen.gov.uk

**Chwaraeon Anabledd**

Yn Nhorfaen mae gennym nifer o glybiau a darpariaethau sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon sy'n cynnwys bobl anabl, a gweithgareddau sy'n benodol ar eu cyfer. Mae gan Chwaraeon Anabledd Cymru nifer o Swyddogion Datblygu rhanbarthol sy'n gyfrifol am gychwyn, hyrwyddo a darparu cyfleoedd chwaraeon a hamdden o safon i bobl ag anableddau, yn bennaf ar lawr gwlad, ac i sefydlu systemau i'w datblygu mewn partneriaeth ag adran Iechyd, Chwaraeon a Ffitrwydd Torfaen (sef adran Datblygu Chwaraeon Torfaen gynt)
Gall hyn gynnwys cefnogi plant a phobl ifanc anabl i gael mynediad at glybiau chwaraeon, ond mae hefyd yn cynnwys cefnogi clybiau chwaraeon i ddod yn fwy hygyrch, er enghraifft, hyfforddi hyfforddwyr a helpu gyda phrynu offer arbenigol. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen i Iechyd, Chwaraeon a Ffitrwydd Torfaen neu Chwaraeon Anabledd Cymru.

**Tîm Iechyd, Chwaraeon a Ffitrwydd Torfaen (pwynt cyswllt cyntaf)**

Mae ymholiadau o ran anabledd a chwaraeon cynhwysol yn Nhorfaen yn cael eu cyfeirio drwy'r Tîm Iechyd, Chwaraeon a Ffitrwydd.

- **E-bost:** sports.development@torfaen.gov.uk
- **Rhif ffôn:** 01633 628965

**Able**

Mae Able yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc 13-19 oed sydd ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu gyflwr niwroamrywiol, yn dilyn diagnosis. Sefydlwyd Able yn 2006 gan grŵp o wirfoddolwyr sy'n angerddol am wella bywydau dyddiol pobl anabl. Fe wnaeth y fenter, a ddechreuodd fel gorsaf radio, dyfu ar garlam oherwydd y galw, ac erbyn hyn mae'n chwarae rhan ganolog yn y gymuned. Y tu hwnt i ddarlledu ar yr awyr, mae gan Able cymaint i'w gynnig, wedi ei deilwra yn ôl anghenion yr unigolyn. Mae cyfleusterau Able yn cynnwys; dau gyfleuster newid (gyda theclynnau codi uwchben), ystafell synhwyraidd, ystafell therapi, stiwdios radio synhwyraidd, Cegin SBA, ystafell Podlediad,

hwb Cyfryngau, parth SBA, ystafelloedd tawel, twneli polythen a siop gwaith coed. Mae staff Able wedi'u hyfforddi yn ôl y safonau uchaf, gan gynnig cymorth a gofal personol. Mae Able yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau blaengar sy'n galluogi unigolion i ddatblygu sgiliau bywyd a magu hyder, a'r cyfan oll wrth gael hwyl a gwneud ffrindiau newydd. Mae gan Able grŵp pontio ar ddydd Llun rhwng 4:30 a 6:30. Mae'n costio £10 y pen ac mae'n cynnig gweithgareddau eraill fel Gwaith Coed, Sgiliau Dysgu Annibynnol, Drama a Cherddoriaeth, Podlediadau Radio, Gwersi Coginio a mwy.

Am ragor o wybodaeth am Able, ewch i Hafan I Canolfan Ddydd Anabledd Dysgu a Chanolfan Sgiliau Bywyd I Able I Cwmbrân, De Cymru

**TOGs**

Mae Canolfan TOGs (Grŵp Cyfleoedd Torfaen) i Blant Anabl yn Y Dafarn Newydd, Pont-y-pŵl yn darparu gwasanaethau i deuluoedd yn Nhorfaen sydd â phlant a phobl ifanc ag anableddau, boed hynny'n anableddau corfforol, anableddau dysgu neu anableddau synhwyraidd. Ymddiriedolwyr a Rhieni sy'n berchen ar y ganolfan ac yn ei rhedeg. Mae Clybiau Ieuenctid Arbennig yn cael eu rhedeg gan dîm o Weithwyr Ieuenctid a Gweithwyr Gwirfoddol.

Mae TOG's yn elusen leol sy'n ariannu ei hun, a gall unrhyw riant/gofalwr sydd â phlentyn anabl rhwng 8 a 18 oed sy'n byw ym mwrdeistref Torfaen a'r cyffiniau gyfeirio eu hunain at TOG's er mwyn i'w plentyn ymuno â ni; nid oes angen i chi gael eich cyfeirio gan unrhyw sefydliad statudol.

Am ragor o wybodaeth ewch i Canolfan TOGS Torfaen - Hafan

**Hope GB**

Mae Hope GB yn elusen gofrestredig sy'n cefnogi unigolion ag anhwylderau sbectrwm awtistig, a'u teuluoedd. Mae Hope GB yn cynnig arweiniad, anogaeth, ac ymdeimlad o gymuned. Mae Hope GB yn cynnig:

- **Clwb Fforwyr Bach** - amgylchedd difyr a chefnogol i blant bach ar y sbectrwm awtistig. Os yw eich plentyn rhwng 2 a 6 oed ac wedi cael diagnosis o awtistiaeth, neu'n disgwyl diagnosis, ac yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, mae croeso i chi gofrestru'ch diddordeb yn y Clwb Fforwyr Bach. Mae Hope GB yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr a staff hyfforddedig sydd ag ystod o gymwysterau perthnasol. Mae'r rhain yn amrywio o chwarae meddal, chwarae synhwyraidd, crefftau, gemau a llawer mwy. Mae ffi tanysgrifio yn daladwy i'r clwb.

- **Sesiynau Addysg yn y Cartref ar ddydd Mawrth** - 10.00am – 11.30am a 12.00pm – 1.30pm *Gall y sesiynau hyn gael eu harchebu ar y wefan. £5 y plentyn, £2.50 yr un i frodyr a chwiorydd. Mae babanod dan 1 oed am ddim. Mae hyn ar gyfer plant hyd at 11 oed.

- **Clwb Cymdeithasol i Oedolion ar Ddydd Iau** - 12.00pm – 2.00pm – amgylchedd hamddenol a chefnogol i rieni a gofalwyr, tra bod eu plant a'u pobl ifanc sydd ar y sbectrwm awtistig, yn mwynhau gweithgareddau difyr, ysgogol gyda'u cyfoedion. Mae'r clybiau'n cael eu cynnal yn ystod y tymor ac yn cynnig cyfleoedd sy'n briodol i oedran y plant, ac yn amrywio o grefftau a gemau i drafodaethau grŵp – a'r cyfan oll gyda chefnogaeth staff a gwirfoddolwyr cymwys. Mae ffi tanysgrifio penodol yn daladwy i'r clwb. Mae lleoedd yn gyfyngedig. Fodd bynnag, os yw eich plentyn neu berson ifanc rhwng 6 a 18 oed ac wedi cael diagnosis o awtistiaeth neu'n disgwyl diagnosis, ac yn byw yn Ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, mae croeso i chi gofrestru eich diddordeb i gael lle.

- **Grwpiau Synhwyraidd a Chymdeithasol i Oedolion Ifanc** - Fel rhan o gymorth pontio parhaus Hope GB, maent wedi creu cyfleoedd rheolaidd i oedolion ifanc 16-25 oed ar y sbectrwm awtistig ddod at ei gilydd mewn amgylcheddau hamddenol, cymdeithasol. Mae'r cynulliadau hyn wedi'u cynllunio i helpu i feithrin hyder, annog cyfeillgarwch, a hwyluso'r newid sy'n aml yn heriol wrth ddod yn oedolion. Mae'r sesiynau yn agored i bob oedolyn ifanc a fyddai'n elwa o'r profiad. Mae'r digwyddiadau cymdeithasol hyn yn amrywio o ran fformat a lleoliad, o gyfarfodydd achlysurol i weithgareddau mwy strwythuredig.

- **Oedolion Ifanc Cymdeithasol** - 6.00pm – 8.00pm i bobl ifanc 16 – 30 oed. Codir cyfraniad o £5.00 y pen.
  Am ragor o wybodaeth ewch i Hope GB | Elusen Awtistiaeth yng Nghwmbrân, De Cymru

**Sparkle**

Mae Sparkle yn wasanaeth sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Plant Serennu. Mae'n darparu gofal, triniaeth a gweithgareddau hanfodol i blant a phobl ifanc ag anableddau a/neu anawsterau datblygiadol sy'n byw yng Nghasnewydd, De Sir Fynwy a De Torfaen, yn ogystal â chefnogaeth i'r teulu ehangach. Egwyddor sylfaenol y Ganolfan yw sicrhau bod plant ag anabledd neu anhawster datblygiadol a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi'n llawn i gymryd rhan mewn profiadau gwerthfawr yn ystod plentyndod, a chael yr un ystod o gyfleoedd, profiadau, gwasanaethau a chyfleusterau â phlant eraill. Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu triniaethau i'r plentyn, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y teulu i ddarparu ar gyfer anghenion rhieni a brodyr a chwiorydd, a chyfleusterau hamdden a chymdeithasol ar y safle mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae Sparkle yn cynnig clybiau hamdden rheolaidd i bob oedran o 0-17. Mae'n cynnig gweithgareddau i'r teulu gan gynnwys sesiynau nofio i'r teulu, diwrnodau difyr a gwylio ffilm fel teulu yn ein Sinema cwbl hygyrch. Gall rhieni a phlant gael hyd i wasanaethau seicoleg. Hefyd, mae cymorth cyswllt teuluol a grwpiau cymorth i rieni, sy'n cael eu rhedeg gan rieni i rieni. Mae ystafell synhwyraidd ag offer gwych y gall teuluoedd ei llogi ar gyfer sesiynau/partïon. Mae ardal parc awyr agored gwbl hygyrch, yn ystod a thu allan i oriau'r ganolfan yn ogystal ag offer arbenigol ac offer chwarae a nodwyd gan therapyddion, a mwy.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Sparkle, helpu plant arbennig i ddisgleirio

**Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân (CPIC)**

Mae CPIC yn lleoliad mynediad agored i bobl ifanc 14-25 oed sy'n byw yn Nhorfaen. Mae'r staff wedi buddsoddi mewn sgiliau rhyngweithiol craidd, fel cyfathrebu. Mae sawl un wedi hyfforddi mewn gwaith ieuenctid, ac mae gan bob un ohonynt wybodaeth fanwl a phrofiad o ddarparu fel y gallant gefnogi pobl ifanc trwy ystod eang o wasanaethau, hyfforddiant a gweithgareddau. Maent yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd, cyflawni cymwysterau allweddol, er mwyn dod yn oedolion iach. Mae CPIC yn cynnig clybiau ieuenctid yn y ganolfan a sesiynau penodol ar gyfer plant â niwroamrywiaeth. Mae CPIC hefyd yn cynnig sesiynau cwnsela i bobl ifanc.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Hafan | Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân

**Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen**

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed yn eu clybiau ieuenctid cymunedol lleol, allan ar y strydoedd gyda'n tîm pwrpasol, mewn ysgolion lleol a thrwy ein gweithgareddau a'n prosiectau ieuenctid cyffrous. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithgareddau gyda'r nos ac ar benwythnosau i bobl ifanc, a rhaglen yn ystod yr haf a gwyliau ysgol sy’n cynnig llawer o bethau difyr a heriol i'w gwneud. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig clybiau ieuenctid sy'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY, Gofalwyr Ifanc a sesiynau LHDTC+.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Gwasanaeth Ieuenctid | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen**

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen yn cefnogi gofalwyr di-dâl o dan 18 oed, sydd wedi cael asesiad sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

1. Maent o dan 18 oed.
2. Maent yn gofalu neu’n rhoi cymorth sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl gan rywun o'r un oedran.
3. Maent yn gofalu am rywun sydd ag anabledd, salwch, neu broblem camddefnyddio sylweddau sylweddol.

Mae'r meini prawf hyn yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cymorth yn cael ei gyfeirio at blant y mae eu cyfrifoldebau gofalu yn cael effaith ystyrlon ar eu lles a'u bywyd bob dydd. Mae’n gwahaniaethu rhyngddynt a phant sy'n rhoi cymorth nodweddiadol, sy'n briodol i'r oedran o fewn y teulu.

Mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen yn rhoi cymorth pwrpasol i blant a phobl ifanc sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu am aelod o'r teulu (fel yr amlinellir uchod). Mae'r gwasanaeth yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol o bob math i helpu gofalwyr ifanc i gydbwyso eu rôl ofalu â'u lles, eu haddysg a'u datblygiad cymdeithasol eu hunain.

Gall y cymorth hwn, gynnwys cymorth emosiynol, gweithgareddau grŵp a chyfleoedd i gael seibiant, gan roi amser gwerthfawr i ofalwyr ifanc gael seibiant o'u cyfrifoldebau. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn galluogi pobl ifanc i gwrdd â chyfoedion mewn sefyllfaoedd tebyg, gan helpu i leihau ynysu, magu hyder a datblygu strategaethau cadarn i ymdopi. Nod cyffredinol y gwasanaeth yw sicrhau bod gofalwyr ifanc yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, bod pobl yn eu deall a'u bod yn gallu mwynhau'r un cyfleoedd â'u cyfoedion.

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen i Gofalwyr Ifanc Torfaen.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Gwasanaeth Cynhwysiant**

Mae'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant yn gweithio ochr yn ochr â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i ddod â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol a theuluoedd at ei gilydd i ddatblygu dysgu, fel bod gan y plant y sylfaen orau bosibl i ddatblygu yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen i Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Gwasanaeth Cynhwysiant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Y Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu (SenCom)**

Mae SenCom yn gweithio ochr yn ochr â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i ddod â phlant â nam ar eu golwg a theuluoedd ynghyd i ddatblygu dysgu, fel bod gan y plant y sylfaen orau bosibl i ddatblygu yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen i Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu (SenCom) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen (GGiD)**

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) Torfaen yn darparu gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim am wasanaethau a chyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan gynnwys darpar rieni, yn Nhorfaen. Mae ganddynt hefyd ystod eang o wybodaeth i gefnogi pobl ifanc, rhieni a darpar rieni plant a phobl ifanc, yn ogystal â gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gofal plant. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am addysg feithrinfa, meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant cofrestredig, clybiau y tu allan i'r ysgol, grwpiau babanod a phlant bach, gweithgareddau hamdden a llawer mwy.

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen at Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen

**Y Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar - 0-5 oed**

Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn darparu cymorth ymyrraeth gynnar i blant cyn-ysgol sydd ag angen datblygiadol sy'n dod i'r amlwg. Darperir cymorth drwy dimau Cymorth i Deuluoedd, Cymorth Iaith Cynnar, a thimau Datblygu a Chymorth y Blynyddoedd Cynnar.

Darperir un pwynt mynediad drwy Banel Ymyrraeth Blynyddoedd Cynnar Torfaen i gael cymorth wedi'i dargedu. Mae'r panel yn dwyn gweithwyr proffesiynol o sawl asiantaeth at ei gilydd i adolygu atgyfeiriadau, ystyried yr anghenion a gyflwynir gan y plentyn a'r teulu, ac argymell y cymorth cynnar sydd fwyaf priodol. Mae hyn yn sicrhau ymyrraeth gydgysylltiedig, amserol gan ddefnyddio'r ystod lawn o wasanaethau ac adnoddau sydd ar gael.

Gall ymyrraeth gynnar gynnwys:

- Rhaglenni grŵp neu raglenni pwrpasol gan dimau Blynyddoedd Cynnar
- Cyngor a strategaethau i gefnogi datblygiad y plentyn
- Cyllid tymor byr ar gyfer gofal plant i hyrwyddo lles, chwarae a chynnydd datblygiadol

Ariennir gofal plant fel cymorth dwys yn y tymor byr i blant 2–4 oed (lle nad oes cyllid arall ar gael), a bydd cynnydd yn cael ei adolygu bob tymor i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y plentyn.

Cymorth y Tu Allan i'r Ysgol
I blant 4-12 oed mewn addysg amser llawn, gellir ariannu'r ddarpariaeth ar ôl ysgol

Am ragor o wybodaeth cysyllter â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen.

**Cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd angen lefel uchel o Gymorth**

Mae'r rhain ar gael i blant a theuluoedd sydd wedi eu hasesu fel rhai sydd ag angen am wasanaeth arbenigol gan Dîm Plant Anabl y Cyngor neu'r GIG. Fe'u darperir i blant a theuluoedd gyda'r anghenion mwyaf cymhleth ac maen nhw'n cynnwys gwasanaethau yn neu i ffwrdd o gartref y plentyn a gallent fod â gofalwyr teuluol neu gyda gweithwyr cymorth unigol i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol. Oherwydd natur rhai o'r gwasanaethau yma, gall fod yna restr aros cyn y gellir eu defnyddio.

Asesiad Gofal Cymdeithasol:
Fel rhiant plentyn ag anabledd, eich hawl chi yw gofyn am asesiad o anghenion eich plentyn gan y gwasanaeth gofal cymdeithasol. Yn Nhorfaen, rydym yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, gydag asiantaethau eraill, i blant a phobl ifanc sydd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra: Plant ag Anabledd sy'n Gymwys i gael Cymorth

Bydd y broses asesu, a gwblheir gan weithiwr cymdeithasol, yn penderfynu a yw eich plentyn yn gymwys ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac yn ein galluogi i weld yn union pa fath o gymorth y mae ei angen ar eich plentyn. Efallai bydd angen i ni ymgynghori â phobl broffesiynol ym meysydd iechyd ac addysg ac asiantaethau er mwyn cael y darlun mwyaf eglur o anghenion eich plentyn.

Unwaith y byddwn wedi cadarnhau bod eich plentyn yn gymwys i gael gwasanaethau gan y Tîm Plant Anabl, byddwn y creu Cynllun Gofal a Chymorth unigol sydd yn nodi pa fath o wasanaethau cymorth sydd angen arnoch chi a'ch plentyn. Bydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal i ddiwallu anghenion eich plentyn..

I drefnu i asesu anghenion eich plentyn bydd angen i chi gysylltu â Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyngor Torfaen ar 01495 762200.

Mae amrywiaeth o ddewisiadau o blith seibiannau byr ar gael gan Ofal Cymdeithasol Torfaen, a hynny yn ôl eich dymuniadau ac anghenion eich plentyn, gan gynnwys:

**Seibiannau byr gyda theulu**

Darperir y rhain gan ofalwyr maeth sydd wedi eu cymeradwyo yn benodol i gynnig seibiant byr i blant anabl. Mae'r gofalwyr maeth yma wedi eu hasesu'n drylwyr, a, fel ein gofalwyr maeth i gyd, wedi eu gwirio trwy'r GDG. Gall seibiannau byr, gan gynnwys aros dros nos, am hyd at chwe wythnos y flwyddyn, gael eu trefnu yn ôl yr angen a ganfuwyd yn dilyn asesiad. Mae pob seibiant gyda theulu yn cael eu trefnu gan y Tîm Plant Anabl, felly bydd angen i chi siarad â’ch rheolwr gofal os ydych chi am drefnu un i'ch plentyn.

**Taliadau Uniongyrchol**

Mae taliadau uniongyrchol, at gyfer anghenion gofal cymdeithasol, yn galluogi rhieni plant anabl sy'n gymwys i gael gwasanaeth i drefnu gofal a gwasanaethau drostyn nhw eu hunain yn lle eu cael yn uniongyrchol gan eu cyngor lleol.

Ar ôl asesiad, gellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gofal personol, seibiannau byr a chyfleoedd hamdden.

Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol am wasanaethau sy'n diwallu'r anghenion a ddisgrifir yn asesiad y plentyn, a hynny’n unig. Mae yna rai gwasanaethau na ellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar eu cyfer, er enghraifft, i dalu am wasanaethau iechyd neu dai.

Mae gan bobl ifanc anabl sy'n 16 a 17 oed hawl i gael eu taliadau uniongyrchol nhw eu hunain a gallant gael fwy o ddewis a rheolaeth mewn perthynas â'u trefniadau gofal trwy'r taliadau uniongyrchol; mae'r cynllun hefyd yn cefnogi byw'n annibynnol. Mae taliadau uniongyrchol ar gael hefyd i ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc 16 a 17 oed.

Os byddwch yn dewis defnyddio taliadau uniongyrchol, byddwch yn ymgymryd â rôl y cyflogwr a’r bobl sy'n rhoi gofal a chymorth i'ch plentyn fydd eich staff. Er bod hyn yn swnio'n frawychus, mae llawer o deuluoedd sydd â phlant anabl, nawr yn dewis taliadau uniongyrchol er mwyn cael mwy o ddewis a hyblygrwydd.

Rhoddir mwy o wybodaeth a chymorth parhaus gan Ddarparwr Cymorth Taliadau Uniongyrchol, y Tîm Byw’n Annibynnol Gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol

**Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol i Blant (GNCB)**

Tîm o Nyrsys Plant Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yw'r GNCB sy'n rhoi gofal nyrsio a chymorth tymor byr a thymor hir i blant / pobl ifanc sydd â *statws gofal parhaus i blant.*

Gall unrhyw berson proffesiynol o fewn iechyd, addysg neu'r awdurdod lleol atgyfeirio i'r GNCB ar gyfer statws gofal parhaus i blant. Serch hynny, mae angen caniatâd rhieni i ymgymryd â'r broses. Gall rhieni a gofalwyr sydd wedi eu rhyddhau o'r GNCB o'r blaen, hefyd wneud atgyfeiriad uniongyrchol os yw anghenion y plentyn / person ifanc wedi newid / gwaethygu neu os yw teuluoedd sydd eisoes wedi gwrthod cymorth, wedi newid eu meddwl.

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael gan y GNCB yn cynnwys:

- Darperir cymorth nyrsio medrus mewn ysgolion arbennig a nodwyd i gefnogi anghenion plant ag anghenion iechyd, gyrchu addysg. Serch hynny, ble mae gan blentyn / person ifanc anghenion gofal parhaus sy'n gofyn am gymorth penodol mewn ysgol brif ffrwd, bydd y GNCB yn cysylltu â'r awdurdod lleol, addysg, gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd, y plentyn / person ifanc a theulu / gofalwyr i sicrhau bod y cymorth angenrheidiol yn cael ei gyflenwi gan alluogi mynediad at addysg.
- Ar ôl asesiad unigol o anghenion y plentyn / person ifanc, mae'r GNCB yn rhoi hyfforddiant i staff addysgol i gyflawni tasgau y mae eu hangen i fynd ar deithiau ysgol.
- Gellir darparu cymorth nyrsio medrus os oes gan blentyn anghenion iechyd wedi eu nodi sy'n gofyn am gymorth nyrsio ar drafnidiaeth i'r ysgol ac oddi yno, ystyrir hyn ar sail unigol.
- Gellir darparu cymorth nyrsio medrus i blentyn / person ifanc yn eu cartref sy'n bodloni statws gofal parhaus plant i gefnogi teuluoedd i gyflenwi ymyraethau iechyd parhaus. Rhoddir y gofal fel arfer mewn blociau cymorth a chaiff ei ddyfarnu ar lefel eithriadol o anghenion iechyd parhaus yn dilyn asesiad.
- Rhoddir cymorth nyrsio medrus yng nghynlluniau chwarae Canolfan Blant Serennu fel y gall plant ag anghenion iechyd parhaus gael y gwasanaethau sy'n rhoi seibiant i deuluoedd. Ble gofynnwyd am gynllun chwarae ychwanegol neu benodol ar gyfer plentyn / person ifanc unigol, byddai'r GNCB yn ystyried y cais. Mae'r GNCB yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd, y plentyn / person ifanc a theuluoedd / gofalwyr i gefnogi mynediad ehangach at gynlluniau chwarae.

**Tŷ Hafan (Hosbis Plant Cymru)**

Dyma hosbis i blant a'u teuluoedd. Mae wedi ei leoli yn Sili ym Mro Morgannwg. Mae Tŷ Hafan yn darparu seibiannau byr, gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant sy'n dioddef gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd (y rheiny sy'n golygu nad oes disgwyl i'r plentyn neu berson ifanc gyrraedd 19 oed). Gall plant a'u teuluoedd gael cymorth am nifer o flynyddoedd, neu am ychydig o ddyddiau ar ddiwedd oes. Pa beth bynnag, mae Tŷ Hafan yn rhoi cariad, gofal a chymorth i'r plant a'u teuluoedd, a hynny am ddim. Gall unrhyw un atgyfeirio, e.e. rhiant, gweithiwr proffesiynol neu gyfaill i'r teulu, serch hynny rhaid cael caniatâd y rhiant neu ofalwr cyn y gall yr atgyfeiriad fynd yn ei flaen.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.tyhafan.org

**Yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud am ein gwasanaethau**

Pan ofynnwyd pa effaith yr oedd cynllun chwarae'r Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol i Blant wedi cael ar weddill y teulu:

“Mae e'n cael cymaint o fwynhad a chymorth ddiamod gan bawb. Mae'n help enfawr i'r teulu yn ystod y gwyliau.”

“Rhoi seibiant i mam, i fy ngalluogi i dreulio amser gyda brodyr a chwiorydd a gwneud gweithgareddau, gan ddysgu iddyn nhw nofio”

“Rydym wedi gallu mynd i ffwrdd am y diwrnod a gwneud pethau a fyddai amhosibl neu anodd eu gwneud”.

Pan ofynnwyd am Daliadau Uniongyrchol:

“Mae'n galluogi mam i dreulio amser gyda'i merch arall ac yn rhyddhau amser iddi hi gael ei dreulio gyda'i gŵr”

“Hoe – braf i'r teulu ac yn braf i'r mab gael diddordebau allanol”

**Y Tîm Plant Anabl**
Gwasanaethau Plant ac Oedolion
Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB
Ffôn: 01495 762200
E-bost: CS.Contact@torfaen.gov.uk
Croeso i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen